

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grŵp Cynghori Technegol

## Adolygiad o’r dystiolaeth ar Blant a Phobl Ifanc o dan 18 oed mewn Darpariaeth Cyn-ysgol, Ysgol neu Goleg yn dilyn y Cyfnod Atal Byr

09 Tachwedd 2020





**Is-grŵp Plant ac Addysg y Grŵp Cynghori Technegol**

**Adolygiad o'r dystiolaeth ar Blant a Phobl Ifanc o dan 18 oed mewn Darpariaeth Cyn-ysgol, Ysgol neu Goleg yn dilyn y Cyfnod Atal Byr – 09/11/2020**

## Y Sefyllfa:

1. Gweithredwyd 'Cyfnod Atal Byr' yng Nghymru o 18:00 o'r gloch ddydd Gwener 23 Hydref am 17 diwrnod (tan ddydd Llun 9 Tachwedd) i fynd i'r afael â'r sefyllfa bod y gyfradd R yng Nghymru yn uwch na 1, gyda phwysau cynyddol ar welyau ysbytai ac Unedau Gofal Dwys. Roedd cyfyngiadau lleol wedi cael rhywfaint o effaith ond roedd gwaith modelu ar 18 Hydref 2020 yn awgrymu y byddai cynnydd mewn marwolaethau heb gyfyngiadau pellach ar gymysgu cymdeithasol mewn cyfnod atal byr i arafu lledaeniad yr haint.

2. Roedd y 'cyfnod atal byr' yn cynnwys cytundeb y dylai ysgolion cynradd agor fel arfer ar ôl y gwyliau hanner tymor (26-30 Hydref), yn ogystal â blynyddoedd 7 ac 8. Byddai myfyrwyr ysgol hŷn ac addysg bellach yn ddarostyngedig i'r cyfnod atal byr o bythefnos, gan ddysgu o'u cartrefi ac eithrio'r rhai oedd ar fin sefyll arholiad a dysgwyr agored i niwed (y rhai yr oedd eu lles corfforol a meddyliol yn golygu bod mynychu'r ysgol neu'r coleg yn arbennig o bwysig). Roedd hyn yn dilyn cyngor cyfredol SAGE yn awgrymu y gallai cau ysgolion uwchradd effeithio ar R hyd at 0.35 ond roedd hwn yn ffigur hyder isel ac ni roddwyd terfyn isaf.

3. Mae gwaith modelu ychwanegol a data empirig o astudiaeth Covid yr ONS[1] yn dangos bod tystiolaeth nawr o lefelau uwch o haint a throsglwyddo ymysg grwpiau oedran ysgol na'r hyn a welwyd yn flaenorol, ynghyd â chyfradd uwch o drosglwyddo asymptomatig, ac mai plant sydd fwyaf tebygol o fod yn achos cyntaf mewn cartref.

4. Mae'r dystiolaeth newydd hon yn dangos bod agor ysgolion yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o heintiau yn y boblogaeth, er bod y mecanwaith ar gyfer hyn yn parhau'n aneglur (gan gynnwys o bosibl lawer o ffactorau megis ailagor gweithleoedd, rhieni sy'n dychwelyd i'r gwaith, siopau a lletygarwch, cymysgu cymdeithasol y tu allan i ysgolion).

5. Ceir tystiolaeth gref bod parhau i fynychu darpariaeth cyn-ysgol, ysgol neu goleg yn bwysig i gefnogi lles plant a phobl ifanc o ran anghenion corfforol, seicolegol a chymdeithasol, i gael cymorth ychwanegol fel prydau ysgol am ddim a chymorth AAA, yn ogystal â bod yn allweddol i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol.

---

[1] Cynllun Peilot Arolwg Haint Coronafeirws (COVID-19 : Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 16 Hydref 2020
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/13november2020?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/latest

**Cefndir:**

6. Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i gadw ysgolion ar agor oni bai nad oes dewis.

7. Roedd y gwyliau hanner tymor arfaethedig yn doriad naturiol o wythnos neu bythefnos, gan ddibynnu ar yr Awdurdod Lleol, a oedd yn cyd-daro ag wythnos lawn gyntaf y cyfnod atal byr.

8. Parhaodd yr ysgol i rai myfyrwyr oedran uwchradd ym mlynyddoedd 9 i fyny oherwydd ystyriaethau academaidd.

9. Nid yw dysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol yn unig, neu pan gaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun amhriodol, neu pan nad yw'r myfyriwr yn gallu cael mynediad ato, yn addas yn lle addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn y tymor hir ac mae defnydd estynedig ohono yn debygol o roi myfyrwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol o dan anfantais a chynyddu anghydraddoldeb. I'r rhai ar gyrsiau galwedigaethol mewn addysg bellach, a'r rhai sy'n gwneud gwyddoniaeth neu rai cyrsiau celfyddydol mewn ysgolion hefyd, nid yw dysgu estynedig ar-lein yn unig yn ymarferol gan fod angen iddynt gael hyfforddiant ymarferol (e.e. mynediad at weithdy, salon, injan car, labordy, bwrdd torri patrymau) i ddysgu sgiliau a chyflawni cymwysterau.

10. Rhaid i unrhyw ddull gweithredu gydbwyso risgiau posibl amgylchedd addysg reoledig â'r risgiau o gymysgu cymdeithasol anffurfiol neu heb reolaeth y tu allan i'r diwrnod ysgol ffurfiol.

**Dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael:**

**Epidemioleg:**

11. Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu bod plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn llawer llai agored i ddioddef clefyd clinigol difrifol nag oedolion.

12. Dengys astudiaethau olrhain cysylltiadau[2] fod lefel trosglwyddiad ymysg pobl ifanc dan 18 oed yn isel yn yr ysgol neu'r gymuned, er eu bod yn agored i drosglwyddiad yn y cartref. Mae plant oedran cyn ysgol a phlant cynradd yn llai agored i haint nag oedolion, ond mae’r cyfraddau ymysg plant oedran uwchradd yn fwy tebygol o gynyddu yn raddol wrth iddynt nesáu at fod yn oedolion.

13. Mae astudiaeth ddiweddaraf yr ONS[3] yn dangos data yn ôl grwpiau oedran ysgolion, ac mae wedi dangos twf yng gyfradd heintio Covid-19 ym mhob grŵp oedran o dan 18 oed ers diwedd mis Awst. Roedd y cyfraddau ar eu huchaf ymhlith pobl ifanc hŷn yn eu harddegau ac oedolion ifanc (blwyddyn 12 a hŷn, gan gynnwys grwpiau oedran Addysg Uwch). Rhybuddiodd ONS y dylid bod yn

---

[2] https://science.sciencemag.org/content/early/2020/09/29/science.abd7672 Epidemiology and transmission dynamics of COVID-19 in two Indian state Laxminarayan et al *Science* 30/09/20

[3] Cynllun Peilot Arolwg Haint Coronafeirws (COVID-19): Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, 16 Hydref 2020
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/23october2020?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/23october2020

ofalus iawn rhag gorddehongli symudiadau bach yn y grwpiau oedran culach, yn enwedig y rhai ym Mlynyddoedd 7 i 11 ysgol, sydd â chyfwg credadwy ehangach. Yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn, roedd nifer y bobl a samplwyd yn y gwahanol grwpiau oedran a gafodd brawf positif ar gyfer COVID-19 yn is o'i gymharu â Lloegr yn gyffredinol, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd mewn amcangyfrifon ar gyfer grwpiau oedran unigol dros y cyfnod hwn, fel y gwelir yn sgil y cyfwng credadwy mwy.

14. Mae diweddariad astudiaeth REACT[4] yn rhoi dadansoddiad manylach a chywirach o achosion Covid-19 yn ôl grŵp oedran. Dangosodd hyn gynnydd yn nifer yr achosion ym mhob grŵp oedran ac eithrio oedran ysgol gynradd, a chynnydd mewn grwpiau oedran ysgol uwchradd hyd at 17 oed sy'n gymesur â chyfraddau mewn grwpiau oedran hŷn eraill (25+), ond yn is na'r grŵp oedran 18-24. Gwelir yn gyson bod cyfraddau ymysg myfyrwyr ysgol yn adlewyrchu’r cyfraddau yn y boblogaeth gyffredinol. Mae'r cyfraddau sylweddol uwch yn y grŵp oedran 18-24 yn cyfateb i adroddiadau am gyfraddau tipyn yn uwch, yn enwedig ymhlith myfyrwyr prifysgol ar eu blwyddyn gyntaf.

15. Gall y feirws gael ei drosglwyddo i blant a phobl ifanc ac oddi wrthynt yn y cartref, yn y gymuned ac mewn lleoliadau addysg. Nid oes digon o dystiolaeth i nodi'n union pa elfen o bob ymddygiad a chysylltiad sy’n gysylltiedig â gofal plant a’u presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg, y tu allan i’r lleoliadau gofal neu addysg eu hunain, sy’n cyfrannu fwyaf at y trosglwyddo. Gall teithiau plant ac oedolion i'r ysgol ac yn ôl a gweithgareddau a digwyddiadau allgyrsiol eraill, ymgasglu wrth gatiau'r ysgol neu wrth fannau gollwng a chodi, rhannu lifft, defnyddio cludiant i’r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, mwy o gysylltiadau rhwng oedolion megis dychwelyd i'r gwaith neu fwy o gymysgu cymdeithasol, oll gyfrannu at fwy o berygl o drosglwyddo. Nid yw'r dadansoddiadau presennol yn gallu nodi union rôl pob cysylltiad wrth drosglwyddo’r feirws.

16. Mae mesurau cysylltiad a symudedd yn awgrymu bod pobl wedi parhau i gymysgu y tu allan i'r cartref yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau. Wedi i’r ysgolion ailagor ym mis Medi, cynyddodd nifer y cysylltiadau a gofnodwyd ar gyfer plant 5-17 oed yn Lloegr yn gyffredinol. Yn gyffredinol, digwyddodd y cysylltiadau a gofnodwyd bryd hynny mewn ysgolion, ond hefyd yn y cartref a'r gymuned, gyda thystiolaeth aneglur am y cysylltiadau mwyaf arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo’r feirws.

17. Cafodd achosion ymysg myfyrwyr a staff yn ysgolion Cymru eu monitro’n ddyddiol ers mis Medi, gan ddangos[5] fod achosion wedi cynyddu'n gyson mewn ysgolion hyd at y dyddiad adrodd o 26 Hydref 2020. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd wedi profi achos ar ryw adeg rhwng agor ym mis Medi a 26 Hydref, ymhlith staff neu fyfyrwyr. Fodd bynnag, roedd llai na hanner yr ysgolion cynradd wedi gwneud hynny. Ar 26 Hydref 2020, nid oedd 1,122 allan o 1,551 (72%) o ysgolion Cymru (cynradd, uwchradd, arbennig ac UCD) wedi cael unrhyw achosion ymhlith staff na myfyrwyr o fewn yr 21 diwrnod diwethaf, roedd

[4] Riley et al https://www.imperial.ac.uk/media/imperial-college/institute-of-global-health-innovation/REACT1_Round5_Paper.pdf High increasing prevalence of SARS-CoV-2 swab positivity in England during end September beginning October 2020: Adroddiad diweddaraf REACT-1 rownd 5

[5] https://llyw.cymru/grwp-cyngor-technegol-adolygiad-o-dystiolaeth-data-monitro-i-gefnogi-lleoliadau-gofal-plant

246 (16%) wedi cael 1 achos, 84 (5%) wedi cael 2 achos a 99 (6%) wedi cael 3 achos neu fwy, gyda chrynodebau data yn cael eu hadrodd bob wythnos. Yn syth ar ôl i achosion gael eu nodi, mae ysgol yn ynysu 'swigod cyswllt' ar unwaith, gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn arwain proses olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain, Diogelu. Ychydig iawn o dystiolaeth a gofnodwyd gan y Swyddogion o glystyrau yn sgil lledaeniad yn yr ysgol.

18. O ran ystyried risgiau i staff ysgol ac addysgu, mae data ONS yn dangos nad yw addysgu yn broffesiwn risg uchel, gyda chyfraddau profion positif ymysg athrawon cyn-ysgol, ysgolion cynradd ac uwchradd a staff o oedrannau tebyg, ac aelodau'r cartref, yn ystadegol debyg i weithleoedd risg isel eraill.

**Ymyriadau anfferyllol:**

19. Mae mesurau lliniaru posibl ar gyfer heintiau[6] (ymyriadau anfferyllol) ar gael, a dylid eu gweithredu'n effeithiol, yn enwedig hylendid dwylo ac arwynebedd, awyru, cadw pellter cymdeithasol, defnyddio gorchuddion wyneb, a lleihau grwpiau cyswllt a chysylltiadau wyneb yn wyneb.

20. Cyngor SAGE ar ymyriadau anfferyllol oedd y byddai angen ystod eang o fesurau eraill er mwyn cadw ysgolion ar agor. Rhestrwyd posibiliadau gan gynnwys awgrymu y dylai gwahanol garfannau fod yn bresennol mewn ysgolion yn ysbeidiol, am wythnos neu bythefnos ar y tro. Byddai hyn yn cynnig amrywiol ddulliau posibl o weithredu addysg, er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol. Mae gwaith modelu'n awgrymu y gallai'r dulliau hyn leihau'r tebygolrwydd o haint, ond mae'n tybio na fyddai unrhyw gymysgu cymdeithasol y tu allan i'r cartref yn ystod cyfnodau y tu allan i'r ysgol. Byddai angen haneru maint dosbarthiadau i gynyddu pellter cymdeithasol yn yr ysgol ar fodelau presenoldeb ysbeidiol mewn ysgolion, ac fe allai hynny ddyblu'r amser addysgu. Gallai'r model hefyd effeithio ar bresenoldeb rhieni yn y gwaith a lleihau cymysgu cymdeithasol am y rheswm hwnnw, felly nid yw'r fantais o leihau presenoldeb myfyrwyr fel y cyfryw, yn absenoldeb rheolaethau eraill sy'n seiliedig ar y boblogaeth, wedi'i brofi.

**Pwyso a mesur y manteision a niwed posibl wrth gau ysgolion**

21. Mae cau ysgolion yn debygol iawn o effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc, maent yn gymharol debygol o amharu ar ddatblygiadol gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol myfyrwyr a gallant hefyd gael effaith andwyol ar les corfforol plant.

22. Mae papur diweddar o Sweden[7] yn dod i'r casgliad bod cau ysgolion yn fesur costus gydag effeithiau niweidiol hirdymor posibl i fyfyrwyr. Mae'r canlyniadau a welir yn cyd-fynd yn fras â gwaith damcaniaethol sy'n nodi nad yw cau'r

---

6 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925854/S0769_Summary_of_effectiveness_and_harms_of_NPIs.pdf

7 School closures and SARS-CoV-2. Evidence from Sweden's partial school closure Jonas Vlachos, Edvin Hertegard, Helena B Svaleryd https://doi.org/10.1101/2020.10.13.20211359'

ysgolion yn ffordd arbennig o effeithiol o gyfyngu ar SARS-CoV-2 (Viner et al., 2020), o leiaf nid wrth wynebu lefel mor uchel o haint ag a wnaeth Sweden yn ystod gwanwyn 2020.

23. Mae adroddiad Ysgolion ECDC[8] o fis Awst yn datgan bod tystiolaeth gwrthgyferbyniol wedi'i chyhoeddi ar effaith cau/ailagor ysgolion ar lefelau trosglwyddo'r feirws yn y gymuned, er bod y dystiolaeth o olrhain cysylltiadau mewn ysgolion, a data arsylwi o nifer o wledydd yr UE yn awgrymu nad yw ailagor ysgolion wedi bod yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol mewn trosglwyddo yn y gymuned.

24. Argymhella ECDC[9] na ddylid ystyried cau ysgolion yn eang oni bai nad oes unrhyw ddewis arall, a dim ond ar ôl i fesurau arwyddocaol eraill gael eu rhoi ar waith yn y gymuned i atal y clefyd rhag lledaenu.

25. Pwysleisiodd adolygiad systematig y Lancet gan Viner[10] y gwahaniaeth rhwng astudiaethau modelu a data empirig: '*Data from the SARS outbreak in mainland China, Hong Kong, and Singapore suggest that school closures did not contribute to the control of the epidemic. Modelling studies of SARS produced conflicting results. Recent modelling studies of COVID-19 predict that school closures alone would prevent only 2–4% of deaths, much less than other social distancing interventions.*'

26. Cadarnhaodd papur BMJ diweddar[11] fod y model yn rhagweld y byddai cau ysgolion ac ynysu pobl iau yn cynyddu cyfanswm nifer y marwolaethau, er y byddai yn eu gohirio i ail donnau a thonnau dilynol, a daeth i'r casgliad bod y strategaeth orau ar gyfer achub bywydau mewn epidemig covid-19 yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd ar gyfer epidemig ffliw gyda phroffil oedran marwolaethau gwahanol, sy'n awgrymu bod deinameg feirysol coronaidd y galon yn wahanol i ffliw mewn plant o dan 18 oed. Fodd bynnag, mae angen tystiolaeth ychwanegol yn ogystal â dadansoddiad genomeg i egluro mecanweithiau trosglwyddo feirysol.

27. Dengys profiad yn Ewrop, ar ôl cyfnodau amrywiol o gau darpariaeth gofal dydd, ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng mis Mawrth a mis Medi, fod bron pob gwlad wedi ailagor ysgolion yn llawn ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau cychwynnol. Mae niferoedd cynyddol yn defnyddio ymyriadau anffisegol ychwanegol fel gorchuddion wyneb mewn ystod ehangach o sefyllfaoedd, a chyfyngu ar nifer y cysylltiadau dyddiol.

**Gwerthusiad:**

28. Mae astudiaethau wedi canfod tystiolaeth o lefelau uwch o haint (symptomatig ac asymptomatig) a throsglwyddo mewn grwpiau oedran ysgol na'r hyn a welwyd yn flaenorol, yn enwedig mewn grwpiau oedran 11-17.

---

[8] https://www.ecdc.europa.eu/en/publications-data/children-and-school-settings-covid-19-transmission

[9] https://www.ecdc.europa.eu/en/covid-19/facts/questions-answers-school-transmission 2 Medi 2020

[10] Viner at al 2020 https://www.thelancet.com/journals/lanchi/article/PIIS2352-4642(20)30095-X/fulltext

[11] Effect of school closures on mortality from coronavirus disease 2019: old and new predictions *BMJ* 2020; 371 doi: https://doi.org/10.1136/bmj.m3588 (Cyhoeddwyd 07 Hydref 2020)

29. Mae'r dystiolaeth newydd hon yn dangos bod agor ysgolion yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o haint yn y boblogaeth, er bod yr union fecanwaith ar gyfer hyn, a chyfeiriad y trosglwyddo, yn parhau'n aneglur. Dylid cynnwys y ffactor hwn mewn rhagdybiaethau wrth gynllunio i ddatblygu opsiynau ar gyfer gweithrediadau ysgolion yn y cyfnod yn dilyn y cyfnod atal byr, yn enwedig o ran defnyddio ymyriadau anfferyllol ar gyfer rheoli heintiau.

30. Ceir tystiolaeth gref bod parhau i fynychu darpariaeth cyn-ysgol, ysgol neu goleg yn bwysig i gefnogi lles plant a phobl ifanc.

**Argymhellion:**

31. Mae mesurau rheoli mewn ysgolion a'r ymyriadau anfferyllol presennol a argymhellir, sydd wedi'u cyd-gynhyrchu'n dda ac sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo ymlyniad, yn hanfodol er mwyn rheoli heintiau a chyfyngu ar gyfraddau trosglwyddo mewn darpariaeth cyn-ysgol, ysgolion ac addysg bellach o dan 18 oed. Dylid ystyried mesurau lliniaru ychwanegol gan gynnwys ffyrdd o leihau cysylltiadau wyneb yn wyneb dyddiol er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, a'r posibilrwydd o wisgo gorchuddion wyneb ar gyfer grwpiau oedran hŷn mewn mwy o amgylchiadau, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus a chludiant penodol. Gallai hyn hyd yn oed gynnwys yn yr ystafell ddosbarth ar sail asesiad risg, lle na ellir cadw pellter cymdeithasol yn effeithiol, gan gydbwyso manteision â niwed posibl i les cyffredinol myfyrwyr, mewn cydweithrediad â phenderfyniadau fforymau lleol Cymru gydnerth.

32. Dylid ystyried edrych ar ddichonoldeb rhaglenni profi asymptomatig torfol mewn ysgolion a cholegau er mwyn gwella'r broses o reoli heintiau a chynnal hyder myfyrwyr, rhieni a staff. Dylai datblygiad unrhyw raglen brofi ystyried cyfraddau heintio cefndirol, y sbectrwm llawn o dechnolegau profi sydd ar gael, cyd-destun profion cymunedol a chydbwysedd rhwng blaenoriaeth strategol a chapasiti profi.

33. Dylid cynnal ysgolion, colegau a chyfleusterau gofal plant fel gweithleoedd diogel i'r holl staff (y rhai sy'n addysgu a staff eraill). Dylai staff sy'n agored iawn i niwed yn glinigol ddilyn canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch gweithio gartref os yw'n bosibl, neu sicrhau mesurau lliniaru yn y gweithle. Dylid cadw at ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer gofal personol a defnyddio cyfarpar diogelu personol bob amser.

34. Dylid cefnogi staff a myfyrwyr i ddeall pwysigrwydd rheolau ar gymysgu cymdeithasol a lleihau nifer y cysylltiadau wyneb yn wyneb dyddiol, yn enwedig y tu allan i'r amgylchedd addysg rheoledig, er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae hyn yn cynnwys ar deithiau i ysgolion ac yn ôl, ac yn ystod gweithgarwch neu gynulliadau allgyrsiol mewn sefyllfaoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol.

35. Dylai staff mewn ysgolion, colegau a chyfleusterau gofal ymgysylltu â myfyrwyr a theuluoedd i gyfathrebu a lliniaru'r risgiau o haint yn ystod yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â gofal plant, ysgolion ac addysg bellach. Dylai'r strategaeth gyfathrebu ddilyn y dull COM-B, er mwyn helpu i ysgogi ymdeimlad o reolaeth bersonol a glynu wrth egwyddorion Atal a Rheoli Heintiau mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion a cholegau, yn ogystal â hyrwyddo agweddau

sylfaenol o anhunanoldeb tuag at bobl ifanc. Gallai hyn helpu i hyrwyddo ymgysylltiad â blaenoriaethau strategol ar gyfer lles pobl ifanc yn y dyfodol, ac ymlyniad at gyfyngiadau personol eraill sy'n caniatáu i ysgolion a cholegau weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.

36. Dylid comisiynu dadansoddiad data ac ymchwil/modelu pellach, o garfanau oedran ysgol penodol i fynd i'r afael â chwestiynau allweddol heb eu hateb sy'n ymwneud â'r cydbwysedd rhwng rheoli heintiau ac addysg effeithiol i fyfyrwyr ysgol ac addysg bellach o dan 18 oed. Dylai hyn gynnwys amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o effaith ar R bob grŵp oedran hyd at 18 oed pan fo’r ysgol ar agor.